Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

James Price
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff

26 Medi 2016

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**

Annwyl Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol

Diolch am eich llythyr yn esbonio ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Ystyriodd y Pwyllgor yr ymateb hwn ochr yn ochr ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ei gyfarfod ar 19 Medi. Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon a chwestiynau am fanylion eich ymateb.

1. Mewn ymateb i argymhelliad 1a, nodir bod holl argymhellion adroddiad blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru "Erydu Arfordirol a Llifogydd Llanw yng Nghymru 2009" wedi'u cwblhau'n swyddogol erbyn mis Awst 2015. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o safbwynt Llywodraeth Cymru. Er ein bod yn cydnabod y gallai rhai materion a oedd wedi'u cynnwys mewn argymhellion blaenorol fod yn feysydd a fyddai'n cael eu gwella'n barhaus, a bod y polisi/strategaeth gyffredinol wedi newidiadau rhywfaint ers 2009, yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ymddengys bod rhagor i'w wneud eto i gyflawni rhai o'r argymhellion blaenorol yn llawn, er enghraifft:

.

a. gweithio gyda'r prif randdeiliaid i ymgysylltu â chymunedau sydd mewn perygl, a rhoi dealltwriaeth eglur iddynt o'i dull strategol (paragraff 1.16 yn yr adroddiad diweddaraf)
b. datblygu strategaeth ar gilio a reolir (paragraff 2.7 yn yr adroddiad diweddaraf a atgyfnerthwyd gan argymhelliad 3).

2. At hynny, er bod y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Cyflawni'r Adolygiad o Lifogydd Arfordirol yn ddiweddarach eleni, mae'r ymateb yn awgrymu mai yn yr adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol yn 2017-18 y bydd Llywodraeth Cymru yn pwyso a mesur y cynnydd mewn ymateb i'r materion a godwyd mewn adolygiadau eraill. Nid yw hyn, mewn gwirionedd, yn cyflawni argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol i gynnwys unrhyw faterion gweddilliol yng Nghynllun Cyflawni'r Adolygiad o Lifogydd Arfordirol.

3. O ran Argymhelliad 1b, nododd y Pwyllgor y bwriedir buddsoddi £150 miliwn drwy'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol ar gyfer y cyfnod rhwng 2018 a 2021. Fodd bynnag, daw adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod ' Llywodraeth Cymru wedi nodi cyllid ychwanegol ar gyfer diogelu'r arfordir ond nid yw wedi datblygu strategaeth ariannu hirdymor y tu hwnt i 2020-21 nac wedi helpu cynghorau i sicrhau opsiynau ar gyfer cyllid allanol'. Byddem yn hoffi i Lywodraeth Cymru roi ymrwymiad cliriach ynghylch datblygu strategaeth i nodi cyllid hirdymor ar gyfer diogelu'r arfordir. Nododd yr Aelodau hefyd y bydd y rhaglen Rheoli Risg Arfordirol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrannu 25 y cant o'r costau, p'un ai o'u cronfeydd eu hunain neu drwy gyfrwng ffynonellau eraill.

4. Mae argymhelliad 3 yn galw ar Lywodraeth Cymru i ' … Ddatblygu opsiynau o fewn y strategaeth genedlaethol i helpu cynghorau i baratoi cymunedau lle y mae'n debygol y bydd angen cilio ar reolir. Dylai'r opsiynau hyn ystyried y trefniadau cyfreithiol ac ariannol sy'n ofynnol i adleoli pobl ac asedau i ffwrdd oddi wrth berygl o lifogydd' a hefyd i 'nodi sut y bydd yn cyfathrebu goblygiadau ei ddull seiliedig ar risg i'r cyhoedd'.

   Mae eich ymateb yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn datblygu pecyn cymorth yn ymwneud ag addasu arfordirol, a fydd yn cynnwys arfer gorau

ac enghreifftiau o sut y mae ardaloedd eraill wedi cyflwyno negeseuon anodd, yn enwedig negeseuon yn ymwneud â chilio dan reolaeth. Teimlai'r Pwyllgor yn gryf nad oedd y dulliau gweithredu a amlinellwyd yn ddigonol ac na fyddent yn cwrdd â phrif bwyslais argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol. Er enghraifft ymddengys nad ystyriwyd yr opsiynau a’r trefniadau ariannol angenrheidiol i symud pobl ac asedau o ardaloedd lle mae perygl llifogydd, a phrin yw’r wybodaeth sydd ar gael yn y cyswllt hwn. Byddem yn croesawu gwybodaeth a fyddai’n ein sicrhau bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i weithredu yn y cyswllt hwn.

Yn olaf, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe bai’n cael copi o'r diweddariad i Gynllun Cyflawni’r Adolygiad o Lifogydd Arfordirol pan gaiff ei gyhoeddi. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf honno a’ch sylwadau ar y pwyntiau uchod cyn penderfynu sut y bydd yn mynd ati i graffu ymhellach ar y pwnc hwn.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**